Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn rôl Pennaeth Ysgol Gynradd Yr Hendy.

Mae gan yr Ysgol weledigaeth glir a chadarn. Gyda'i gilydd mae holl staff yr Hendy yn rhannu'r weledigaeth hon ar draws cymuned yr ysgol gyfan ac yn creu ethos o waith tîm agos sy'n canolbwyntio'n bwrpasol ar wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ddiogel a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais eithriadol o dda ar rôl a chyfraniad pob unigolyn at deulu'r ysgol. Credwn fod hyn yn gyfle cyffrous i ymuno a thîm ymroddgar mewn ysgol fagwrol a llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer lles, datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yr holl ddisgyblion yn rhagorol. Mae cynllunio'r addysgu a'r profiadau dysgu, o amgylch Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn galluogi disgyblion i ddeall eu hawliau a sut i fod yn ddinesydd da, teg a chyfiawn.

Rydym am benodi unigolyn brwdfrydig, blaengar, deinamig a phrofiadol sydd yn barod i arwain yr ysgol at y bennod nesaf. Ysgol Gynradd Ddwyieithog yw Ysgol Yr Hendy sy'n darparu ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed. Erbyn hyn mae dros 60% o ddisgyblion yn derbyn ei haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Ysgol yn ymfalchïo yn eu safonau addysgu wrth iddynt ddatblygu profiadau bywiog a chyffrous i ddisgyblion, megis datblygu dysgu yn yr ardal allanol a hefyd cynnig profiadau cystadlu yn 'Carol Yr Ŵyl' i ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi ei leoli yng nghanol pentref yr Hendy. Yr ydym yn meithrin cysylltiadau cryf iawn gyda rhieni ac mae'n gwneud cynnydd buddiol o ran datblygu gallu rhieni i gynorthwyo eu plant eu hunain Mae gennym Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gweithgar a hir sefydlog sy'n cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian ac yn cynnig cymorth ymarferol trwy gydol y flwyddyn. Mae'r ysgol yn perthyn i glwstwr o ysgolion y Strade a Bryngwyn sy'n cydweithio'n agos fel sefydliadau dysgu.

Mae'r ysgol yn amgylchedd diogel ac ysgogol gyda'r weledigaeth 'Law yn llaw, gyda'n gilydd, cymaint mwy', wrth galon popeth a wnawn. Mae'n fan dysgu cynhwysol a chyffrous lle caiff plant a staff eu hannog i ffynnu a llwyddo. Mae adeilad newydd yn debygol o fod ar y gorwel ar gyfer disgyblion Ysgol Yr Hendy. Mae ein staff yn rhoi pwyslais cryf ar adnabod y plentyn fel unigolyn cyflawn, yn ogystal â dod i adnabod ein teuluoedd.

Os ydych yn dymuno ymuno â chymuned ein hysgol ac yn credu bod gennych y medrau a'r ddawn i arwain y tîm llwyddiannus yma, yna byddem yn croesawu eich cais. Os hoffech ymweld â'r ysgol, cysylltwch â Chadeirydd y Llywodraethwyr, Gareth Beynon Thomas ar goitrefach@yahoo.com neu 01792 882569 / 07800 580999.

Yr eiddoch yn gywir,

Mr Gareth Beynon Thomas
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

